

Contents

Rhaglen	2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	5
5 - Adroddiad y Swyddog Morwrol	9
Atodiad 1 - Rheoliadau Cyffredinol i ddefnyddwyr Harbwr	11
Atodiad 2 - Cyfanswm Cofrestrau Cychod Pwer 2014	12
Atodiad 3 - Cyfanswm Cofrestrau Badau Dwr Personol 2014	13
Atodiad 4 - Ffioedd a Thaliadau Cyffredinol	14
Atodiad 5 - Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol 2015-16	15
Atodiad 6 - Ffioedd Harbwr Porthmadog 2015-16	16
Atodiad 7 - Ffioedd Mynediad Cerbydau Traeth Morfa Bychan a Maes Parcio Machroes 2015-16	17
Atodiad 8 - Chwyddiant 2015-16	18
Atodiad 9 - Llythyr gwahoddiad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru	19
Atodiad 10 - Sianel Porthmadog	21



Gwasanaeth Democratiaeth
Democracy Service
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG
PORTHMADOG HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

5.30PM DYDD MERCHER, 4 MAWRTH, 2015

5.30PM WEDNESDAY, 4 MARCH, 2015

****Noder amser cychwyn y cyfarfod os gwelwch yn dda****

****Please note the meeting start time****

Lleoliad / Location

YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL EIFIONYDD, PORTHMADOG

****Noder y lleoliad os gwelwch yn dda****

****Please note the location****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

BETHAN ADAMS (01286 679020)

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 24-2-15

AELODAETH/MEMBERSHIP:

Cyngor Gwynedd:

Cyng/Cllr Selwyn Griffiths	(Aelod Lleol/Local Member)
Cyng/Cllr Alwyn Gruffydd	(Aelod Lleol/Local Member)
Cyng/Cllr Jason Humphreys	(Aelod Lleol/ Local Member)

Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

I'w gadarnhau / To be confirmed

	(Cyngor Tref Porthmadog / Porthmadog Town Council)
Mr. David W. Eastwood	(Cynrychioli Buddiannau'r Harbwr / Representing Harbour Interests)
Dr. John J. Morris	(Cynrychioli'r Buddiannau Hamdden / Representing Leisure Interests)
Mr David McLean	(Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir / Representing Landowners Interests)
Mr Ian Roberts	(Cynrychioli'r Buddiannau Diwydiannol / Representing Industrial Interests)
Mr Robert Owen	(Cynrychioli'r Buddiannau Masnachol / Representing Commercial Interests)
Mr Peter Lunt Williams	(Sefydliad y Bâd Achub Cricieth / Lifeboat Institution)

Sylwedyddion / Observers

Cyng/Coun David Richardson	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi Aberdyfi Harbour Consultative Committee
Cyng/Coun Gethin Williams	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw Barmouth Harbour Consultative Committee
Cyng/Coun R.J. Wright	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli Pwllheli Harbour Consultative Committee

Noder bod y cyfarfod yn cychwyn am 5.30pm a bod y lleoliad wedi newid

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2014, fel rhai cywir. (copi yma - papur **melyn**)

5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig. (copi yma – papur **glas**)

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 14 Hydref 2015 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 8/10/14

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Sefydliad y Bâd Achub, Cricieth).

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet - Economi)

HEFYD YN BRESENNOL: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones, (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), David O'Neill (Harbwr Feistr) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cyngorydd Selwyn Griffiths yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2014, fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

a) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau

Nodwyd bod camau wedi eu cymryd i geisio cadarnhau cynrychiolaeth Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Abermaw ac Aberdyfi, ond gan fod Pwyllgor Ymgynghorol Porthmadog wedi ei sefydlu o dan Orchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998 roedd aelodaeth y Pwyllgor yma yn fwy pendant.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed aelodaeth, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol gan Gyngor Tref Porthmadog yn cynnwys y farn gyfreithiol a dderbyniwyd ganddynt. Pwysleisiwyd mai'r Cyngor Tref oedd yn enwebu cynrychiolydd ar eu rhan fel aelod cyfetholedig ar y pwyllgor.

PENDERFYNWYD anfon llythyr at Gyngor Tref Porthmadog yn egluro'r sefyllfa.

b) Cofnodion Cyfarfod Blaenorol

Tynnwyd sylw'r aelodau at gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2012. Nodwyd bod y cofnod o dan y pennawd 'Diogelwch' wedi camddehongli'r drafodaeth yn y cyfarfod lle bu trafodaeth am gamymddwyn yng nghyffiniau'r harbwr a damwain.

Eglurwyd bod mam y bachgen wedi cysylltu yng nghyswllt y mater ac yn datgan anfonlonrwydd am yr hyn a fu wedi ei gofnodi. Pwysleisiwyd nad oedd y ddamwain lle anafwyd ei mab gyda propeller cwch yn deillio o gamymddwyn. Pwysleisiwyd ei fod yn angenrheidiol bod Aelodau o'r Pwyllgor yn archwilio'r cofnodion yn fanwl ac yn cynnig cywiriadau cyn cadarnhau'r cofnodion.

PENDERFYNWYD:

(a) bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu efo mam y bachgen yng nghyswllt y camddealltwriaeth;

(b) anfon at fam y bachgen copi o gofnodion y cyfarfod yma wedi eu cadarnhau.

c) Cod Diogelwch Harbyrau

Eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y mabwysiadwyd trefn newydd yng nghyswllt Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau gyda'r Cod Diogelwch Harbyrau yn un o'r prif yrwyr. Nodwyd y byddai adroddiad blynyddol yn mynd gerbron y Cabinet ac mai'r Pwyllgor Ymgynghorol yw'r fforwm ar gyfer codi materion neu amlygu pryderon o dan y Cod Diogelwch.

Nodwyd bod copïau wedi eu dosbarthu o'r Cod ac fe ofynnwyd fod copi electroneg pellach yn cael ei anfon at yr aelodau.

PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon copi electroneg o'r Cod Diogelwch Harbyrau at yr aelodau.

ch) Staff Harbwr

Nodwyd, yn dilyn ymddeoliad y Swyddog Morwrol Harbyrau, bod yr Haf wedi bod yn hynod heriol gyda'r baich wedi ei rannu rhwng staff presennol y Gwasanaeth.

Adroddwyd bod yr Harbwr Feistr yn gadael ei swydd yn fuan er cymryd swydd fel Harbwr Feistr Caernarfon gyda'r Ymddiriedolaeth Harbwr. Diolchwyd am ei gyfraniad dros y blynyddoedd a oedd wedi cyfrannu'n sylweddol at wella safonau yn yr harbwr.

Nodwyd yr hysbysebwr swydd yr Harbwr Feistr yn ogystal â Swyddog Morwrol Harbyrau yn y dyfodol agos.

Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad o waith yr Harbwr Feistr a dymunwyd yn dda iddo.

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar raglen waith y Gwasanaeth ar gyfer y Gaeaf.

d) Materion Diogelwch Parcio

Nodwyd bod Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol wedi tynnu sylw at drafferthion mynediad cerbydau oherwydd bod unigolion yn parcio ar yr 'apex' ger y Clwb Hwyllo. Mewn ymateb i'r sylw, nododd cynrychiolydd dros fuddiannau hamdden bod y Clwb Hwyllo yn gyfrifol am hanner y lôn ac y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod pwyllgor y Clwb Hwyllo.

Nododd aelod bod angen i'r Cyngor fod ynghlwm a thrafodaethau yng nghyswllt y mater. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei barodrwydd i fod yn rhan o drafodaethau ac y byddai'n cysylltu â swyddogion eraill yn y Cyngor yng nghyswllt y mater.

PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cynnal trafodaethau yng nghyswllt y mater diogelwch parcio ger y Clwb Hwyllo.

dd) Mordwyo ac Angorfeydd

Adroddwyd yn dilyn camymddwyn, y gorfodir lansio cychod o'r safle lansio sydd wedi ei leoli ger prif fynedfa traeth Morfa Bychan yn hytrach na Chwt Powdwr er sicrhau diogelwch yr holl ddefnyddwyr. Nodwyd bod y sefyllfa wedi gwella ond nad oedd datrysiaid cyflawn, felly byddai staff yn parhau i ddelio ac achosion o gamymddwyn.

Diolchodd aelod i'r swyddogion am orfodi lansio yn y man yma gan fod gwellhad yn y sefyllfa ac y dylid parhau ar y trywydd hwn.

Nodwyd bod Tŷ'r Drindod wedi cynnal archwiliad o'r cymhorthion mordwyo ac wedi rhoi 2 rybudd o beidio cydymffurfio. Eglurwyd bod y rhybuddion wedi eu tynnu o ganlyniad i gydweithio efo Tŷ'r Drindod ar ddatrysiaid.

Adroddwyd y bwriedir cynnal archwiliad pellach o'r angorfeydd yn fuan yn 2015 gyda'r broses o geisio dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith ar gychwyn.

e) Ystadegau

Adroddwyd bod y sefyllfa o ran niferoedd cychod yn gyson a'r tuedd yn yr holl harbyrau gyda 3 cwch yn llai ym Mhorthmadog o gymharu â blwyddyn diwethaf.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd rhestr manylion cychod yn yr harbwr i'w weld yn eglur yn y rhaglen oherwydd cefndir tywyll y tabl ac y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth yn electroneg i'r aelodau.

PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon manylion cychod yn Harbwr Porthmadog at yr aelodau yn electronig.

f) Cyllidebau

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar gyllideb terfynol 2013/14, gan nodi bod buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud mewn cadwyni ac angorfeydd. Nodwyd bod y peiriant talu ac arddangos ym maes parcio Swyddfa'r Harbwr wedi cynhyrchu £5,609.97 o incwm, a oedd wedi galluogi sefyllfa cyllidebol terfynol calonogol o £6,623.

Rhodddwyd diweddariad ar sefyllfa gyllidebol diwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2014/15. Nodwyd bod y targed incwm ar gyfer y flwyddyn bron a'i gyrraedd ond gan nad oes bwriad codi tal ar gyfer parcio ym maes parcio ger Swyddfa'r Harbwr dros gyfnod y Gaeaf ni fyddai incwm sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Ychwanegodd ei fod yn ffyddiog o fod yn unol â'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

ff) Ffioedd 2015/16

Adroddwyd y bwriedir cynyddu ffioedd 2015/16 yn unol â chwyddiant.

g) Cynllun Arfaethedig Pontŵn

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr Harbwr Feistr wedi edrych ar y posibilrwydd o osod pontŵns yn yr harbwr. Ychwanegwyd bod posibilrwydd y gallai stanciau gael eu gosod yn yr harbwr ond nad oedd ffordd o ariannu wedi ei adnabod hyd yn hyn. Nodwyd y bwriedir cynnal trafodaethau pellach ynglŷn â lleoli pontŵn wrth ochr wal yr harbwr efo'r Clwb Hwyllo.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed yr Academi Hwyllo ym Mhwllheli, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn ffyddiog y byddai'r datblygiad cyffrous yma yn creu cyfleoedd ar gyfer yr harbyrau eraill yn ogystal â buddion i'r ardal yn ehangach.

Pwysleisiodd aelod pwysigrwydd gwerthu/hyrwyddo gweddill yr harbyrau yn ogystal â Hafan Pwllheli.

h) Carthu

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed carthu'r harbwr, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y prosesau amgylcheddol ynghlwm a charthu yn gostus a maith. Ychwanegodd bod angen gweithio efo natur i ddarganfod datrysiad yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Nododd aelod y dylid edrych ar yr opsiwn o roi rhywbeth ar y bont er ceisio datrys problem lefelau silt yn yr harbwr. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n holi yn anffurfiol i'r mater.

i) Ansawdd dŵr

Adroddwyd bod ansawdd dŵr ymdrochi Morfa Bychan wedi cyrraedd y gofynion ond nad oedd hyn wedi ei gadarnhau yn ffurfiol hyd yma gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymgynghoriad Dŵr Cymru yng nghyswllt eu cais i CNC i amrywio'r drwydded yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Porthmadog, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi ymateb yn nodi ei wrthwynebiad i stopio'r driniaeth drydyddol sef Diheintio Uwchfioled (UV).

PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu efo Dŵr Cymru i geisio diweddariad o'r sefyllfa yng nghyswllt Triniaeth Diheintio Uwchfioled (UV) ym Mhorthmadog.

6. Cyfarfod Nesaf

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 4 Mawrth, 2015.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.55pm

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Harbour Consultative Committee

04 Mawrth / March 2015

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.

Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.

1. Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code

- Derbyn sylwadau Aelodau ar y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive observations of Members on the Port Marine Safety Code.
- Materion yn codi ynglyn a Cod Diogelwch Harbwr / Matters arising relevant to the Port Marine Safety Code

2. Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees

- Cadarnhau Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog 2015 / Confirmation of Porthmadog Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2015
- Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog 2015/ Porthmadog Harbour Consultative Committee Representatives 2015

3. Mordwyo ac Angorfeydd Navigation and Moorings

- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal Angorfeydd 2015 / 2015 Mooring Maintenance

4. Ystadegau Morwrol Maritime Unit Statistics

- Ystadegau Cyffredinol / General Statistics

5. Cyllidebau Harbyrau Harbour Budgets

- Targedau Cyllideb Cyfredol 2014-15 / 2014-15 Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
- Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
- Ffioedd Angorfeydd Arfaethedig 2015 Proposed Fees and Charges

6. Staff Harbwr / Harbour Staff

- Trefniadau staff Gwanwyn/Haf 2015 – Spring/Summer Staff Arrangements 2015
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

RHEOLIADAU CYFFREDINOL I DDEFNYDDWYR HARBWR

DYRANNIR ANGORFEYDD YN DDAROSTYNGEDIG I'R TERMAU A RHEOLAU CANLYNOL

1. Rhaid cyflwyno unrhyw gais am angorfa ar ffurflen briodol gais angorfa Cyngor Gwynedd.
2. Rhaid i bob ymgeisydd dalu ffioedd cywir yn llawn i'r Awdurdod Harbwr cyn y 1af o Dachwedd ym mhob blwyddyn ariannol, ac eithrio ceisiadau hwyr ble fydd rhaid talu'r ffioedd cywir yn llawn oddi fewn 14 diwrnod o gadarnhau derbyn yr angorfa.
3. Fe fydd yn rhaid i bob ymgeisydd gydymffurfio ac is ddeddfau'r harbwr ac unrhyw reol ychwanegol a fydd wedi ei gyflwyno gan yr Awdurdod Harbwr. Gellir archwilio'r is ddeddfau drwy drefniant gyda'r Harbwr Feistr. Fe fydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ar bob achos, ac mewn pob ystyriaeth, gydymffurfio a rheoliadau diogelwch a fyddai yn ymwneud ag y math o gwch ac angorir oddi fewn awdurdodaeth yr harbwr ar hyd y cyfnod.
4. Fe fydd yr ymgeisydd yn derbyn bod yr angorfa a fu wedi ei gynnig ar gyfer y cwch a fydd wedi ei enwi yn y ffurflen cais am angorfa.
5. Ni chaiff yr ymgeisydd, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Harbwr, drosglwyddo, neu isosod yr angorfa.
6. Fe fydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dderbyn cyfrifoldeb llwyr am ddiogelu'r cwch i offer yr angorfa ar bob achos. Mae'r ymgeisydd yn hollol gyfrifol am ddarparu offer addas a priodol a fyddai yn diogelu'r cwch i'r codwr angor/stanc. Fe fydd yn ofynnol i'r perchennog hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig pe ddigwyddi'r unrhyw ddifrod i eiddo'r Awdurdod Harbwr, ac ymhellach, i ddiogledu'r Awdurdod Harbwr oddi wrth, ac yn erbyn, unrhyw gais am iawndal, neu gostau eraill a gyfodir.
7. Mae yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig oddi fewn tri deg diwrnod pe bydd yn penderfynu gadael yr angorfa yn barhaol yn ystod y tymor.
8. Bydd y Cyngor yn ystyried ad-dalu ffioedd angorfeydd pan fydd y cytundeb angori yn cael ei ddiddymu gan y perchennog / cwsmer am resymau na ellid eu rhagweld ar yr adeg pan wnaed y cytundeb, ac sydd y tu hwnt i reolaeth y perchennog / cwsmer. Bydd yna ddim ad daliad am angorfeydd sydd yn cael eu diddymu ar ôl y 31ain Awst.

Cyfrifir ad-daliadau gan ddefnyddio rheol 18 mis, pan fo'r tal blynyddol yn cael ei rannu i 18 rhan gyda phob mis calendr o fis Ebrill dan fis Medi, yn gynwysedig, yn werth 2/18, a phob mis calendr o fis Hydref tan fis Mawrth, yn gynwysedig, yn werth 1/18.
9. Ni fydd yr Awdurdod Harbwr yn derbyn unrhyw atebolrwydd pa beth bynnag, am farwolaeth, neu anaf i unrhyw berson, neu ddifrod i eiddo'r ymgeisydd, ei wahoddion, asiant, gyflogwr, neu unrhyw berson arall oni bai pe byddai'r achos yn arddangos esgeulustod ar ran yr Awdurdod Harbwr, eu gweision, neu asiant. Fe fydd yr ymgeisydd yn digolledu, a chadw'r Awdurdod Harbwr yn erbyn unrhyw gais, cholled, neu hawlied yn codi oddi yno.
10. Fe fydd rhaid i'r ymgeisydd fod gydag yswiriant 'Trydydd Parti' gyda chwmni yswiriant bri i'r isafswm o £2,000,000, ac fe fydd yn rhaid arlwyyo manylion gyda chais yr ymgeisydd.

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi</i>	<i>Harbwr Abermaw</i>	<i>Harbwr Porthmadog</i>	<i>Harbwr Pwllheli</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2007	45	111	39	183	46	102 Abersoch 8 Machroes 40 Trefor	617	1191
2008	37 Harbwr 3 Tywyn	92	30	147	25	65 Abersoch a Machroes 18 Trefor	659	1076
2009	47 Harbwr 1 Tywyn	81 Abermaw 24 Caerddaniel	26	123	30	95 Abersoch 15 Machroes 29 Trefor	702	1173
2010	37 Harbwr 0 Tywyn	112 Abermaw 16 Caerddaniel	28	160	32	110 Abersoch 17 Machroes 90 Warren 18 Trefor 17 Nefyn 38 Morfa Nefyn	714	1389
2011	25 Harbwr 1 Tywyn	63 Abermaw 10 Caerddaniel	24	150	29	62 Abersoch 12 Machroes 12 Warren 31 Trefor 7 Nefyn 45 Morfa Nefyn	701	1172
2012	23 Harbwr 4 Tywyn	48 Abermaw 18 Caerddaniel	23	23	8	70 Abersoch 4 Machroes 13 Trefor 14 Nefyn 25 Morfa Nefyn	604	877
2013	27 Harbwr 9 Tywyn	54 Abermaw 11 Caerddaniel	22	16 Harbwr 60 Hafan	22	92 Abersoch 14 Machroes 22 Trefor 17 Nefyn 24 Morfa Nefyn 38 Aberdaron	553	981
2014	54 Harbwr 8 Tywyn	64 Abermaw 11 Caerddaniel	24	118 Total Boat Care 8 Harbwr 85 Hafan	19	115 Abersoch 3 Machroes 30 Morfa Nefyn 14 Nefyn 21 Trefor 19 Aberdaron	408	1001

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi</i>	<i>Harbwr Abermaw</i>	<i>Harbwr Porthmadog</i>	<i>Harbwr Pwllheli</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2007	31	111	66	79	175	90 Abersoch 11 Machroes 6 Trefor	471	1040
2008	32	79	46	68	150	91 Abersoch a Machroes 2 Trefor	403	871
2009	27 Aberdyfi 3 Tywyn	69 Abermaw 18 Caerddaniel	45	51	185	107 Abersoch 8 Machroes	374	892
2010	27 Aberdyfi	83 Abermaw 17 Caerddaniel	39	63	201	99 Abersoch 3 Machroes 22 Warren 1 Trefor 1 Nefyn 9 Morfa Nefyn	400	965
2011	23 Aberdyfi	40 Abermaw 7 Caerddaniel	51	65	168	71 Abersoch 3 Machroes 9 Warren 3 Nefyn 8 Morfa Nefyn	382	830
2012	9 Aberdyfi	37 Abermaw 7 Caerddaniel	25	7	85	53 Abersoch 2 Machroes 6 Morfa Nefyn 3 Nefyn 1 Trefor	390	625
2013	16 Aberdyfi 10 Tywyn	55 Abermaw 6 Caerddaniel	36	2 Harbwr 23 Hafan	129	85 Abersoch 4 Machroes 6 Morfa Nefyn 8 Nefyn 2 Trefor 4 Aberdaron	308	694
2014	22 Aberdyfi 1 Tywyn	65 Abermaw 5 Caerddaniel	20	36 Total Boat Care 1 Harbwr 47 Hafan	143	88 Abersoch 5 Machroes 3 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	250	693

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit

FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES

Prisiau Yn Cynnwys TAW	2013-14	2014-15	2015-16 (2.0%)	Prices Include VAT
Rhaff cysylltiol a bwi codi	30.00	30.00	Diddymu / Abolish	Link line and pickup buoy
Gosod rhaffau angorfeydd	42.00	42.00	Diddymu / Abolish	Fitting of mooring lines
Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr)	46.20	47.12	48.07	Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel)
Trwydded Cychwyr - Pwer {Dim TAW}	50.00	55.00	56.10	Boatman's Licence - Power { No VAT }
Trwydded Perchennog - Pwer {Dim TAW}	60.00	65.00	66.30	Proprietor's Licence - Power { No VAT }

Ffioedd Lansio a Cofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol
Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees

01/04/2015 – 31/03/2016

Ffioedd yn cynnwys TAW / All fees inclusive of VAT

Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)	2013/14	2014/15	2015/16	Renewal Fees (Small Permits)
Cofrestru Blynyddol - Trwyddedau Cofrestru Bach yn unig	-	-	-	Annual Re-registration – Small Registration permits only
Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol yn unig	25.00	25.00	25.00	Postal applications to the Council Maritime Office only
Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau	30.00	30.00	30.00	In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches
Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Mawr a Bychan)				Renewal Fees (Large and Small Permits)
Cofrestru Blynyddol - Rhifau Adnabod + Trwydded Cofrestru	-	-	-	Annual Registration – Identification Number + Registration Permits
Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol	35.00	35.00	35.00	Postal applications to the Council Maritime Office only
Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau	40.00	40.00	40.00	In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches
Ceisiadau Newydd				New Applications
Cofrestru Blynyddol - Rhifau Adnabod + Trwydded Cofrestru	-	-	-	Annual Registration – Identification No + Registration Permits
Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol	35.00	35.00	35.00	Postal applications to the Council Maritime Office only
Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau	40.00	40.00	40.00	In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches
Trwyddedau Lansio				Launching Permit
Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredin	10.00	10.00	10.00	Daily launch – General Slipways/Beaches
Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan	-	13.00	13.00	Daily launch – Morfa Bychan Beach
Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) – cynnwys ffi cofrestru	-	-	-	Annual Launching (1 April – 31 March) – inclusive of registration fee
Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol	130.00	130.00	130.00	Postal applications to the Council Maritime Office
Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau	150.00	150.00	150.00	In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches
Trosglwyddo / Aiddodiad				Transfer / Replacement
Ceisiadau drwy'r post yn unig - Prif Swyddfa Forwrol	-	-	-	Postal application only - Council Maritime Office
Trwyddedau Cofrestru yn unig (Trwyddedau Bach)	25.00	25.00	25.00	Registration permits only (Small Permits)
Rhifau Adnabod a Trwyddedau Cofrestru (Trwyddedau Mawr + Bach)	35.00	35.00	35.00	Identification Numbers and Registration Permits (Large + Small Permits)
Cychod llai na 10 HP				Vessels under 10 HP
Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau mewn person yn unig	-	-	-	Annual Registration Fee - In person application only
Harbyrau neu'r Traethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio	20.00	20.00	20.00	Harbour or Beaches, with vessel available for inspection

Harbwr Porthmadog Harbour
2015/16

	2014-15	2014-15	2015-16	2015-16	
	Lleol Local Incl. VAT 2%	Eraill Others Incl.VAT 2%	Lleol Local Incl. VAT 1%	Eraill Others Incl.VAT 1%	
Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch)	38.47	40.00	38.86	40.39	Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels)
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1	378.11	466.19	381.89	470.84	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2	352.27	442.93	355.80	447.36	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3	326.42	414.49	329.69	418.63	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1	340.01	427.42	343.40	431.69	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2	314.15	401.57	317.29	405.59	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3	288.31	378.31	291.19	382.09	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1	221.24	274.16	223.45	276.90	Drying Mooring + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3	169.56	222.48	171.25	224.70	Drying Mooring + Harbour Dues Area 3
Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest	50.90	51.92	51.41	52.44	Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest
Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod					Visiting Vessels – Daily or part of day
Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd	6.00	-	6.00	-	Gwynedd Council Harbour/Marina Clients
Pob Cwch Ymweld Arall	-	8.00	-	8.00	All Other Visiting Vessels
Ardal 4 Borth-y-Gest					Area 4 Borth-y-Gest
Pris y fedr am flwyddyn Angorfeydd ar gael i rhai sydd yn breswyl yn barhaol, ac yn llawn amser yng Ngwynedd	22.21	40.00	22.44	40.39	Price per meter per annum Mooring fees available for individuals who reside in Gwynedd permanently and full time
Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod	0.77	0.77	0.78	0.78	Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of day
Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr	1,685.45	-	1,702.31	-	Park and Launch License – max 50 vessels
Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau	-	-	-	-	Launching fees – as per beach launching fees
Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% Tollau Harbwr	178.33	-	180.12	-	Vessels on winter moorings + 25% Harbour Dues
Diddymu cais angorfa. (Gorddewisol)	Rheol 1/18	Rule 1/18	Rheol 1/18	Rule 1/18	Cancellation of mooring. (Discretionary)

Mynediad Cerbydau Traeth Morfa Bychan a Maes Parcio Machroes
Morfa Bychan Beach Entry and Machroes Parking

Cerbydau – Yn Cynnwys TAW	2013-14	2014-15	2015-16	Vehicles – Including VAT
Ceir fesul diwrnod: 1af Ebrill-30 Mehefin	4.00	4.00	5.00	Per car per day: 1 April-30 June inclusive
Ceir fesul diwrnod: 1af Gorffennaf-31 Awst	4.00	5.00	5.00	Per car per day: 1 July-31 August inclusive
Ceir fesul diwrnod: 1af Medi -30 Medi	4.00	4.00	5.00	Per car per day: 1 September-30 September
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd (Y Pasg – 30 ^{ain} o Fehefin a 1 ^{af} o Fedi - 30 ^{ain} o Fedi)	N/A	N/A	N/A	Motor home / large caravans per day (Easter – 30 th of June and from September 1 st -30 th September)
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd: 1af Ebrill-30 Mehefin	8.00	8.00	10.00	Motor home / large caravans per day 1 April-30 June inclusive
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd: 1af Gorffennaf-31 Awst	8.00	10.00	10.00	Motor home / large caravans per day 1 July-31 August inclusive
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd: 1af Medi -30 Medi	8.00	8.00	10.00	Motor home / large caravans per day 1 September-30 September
Bws mini	10.00	10.00	10.00	Minibus, light wagon
Gwasanaeth tynnu allan cerbyd y Cyngor	30.00	50.00	50.00	Council Patrol Vehicle Service tow out
Ol-gerbyd gyda canws/hwylfyrdd/Cwch Hwyllo	10.00	10.00	10.00	Sailboat/Canoes/windsurf trailer
Tocyn tymhorol parcio ar draeth Morfa Bychan. Mynediad a parcio cerbydau yn unig – dim cychod. Trigolion parhaol Gwynedd yn unig.	40.00	45.00	45.00	Season Permit ticket to Morfa Bychan beach. (Gwynedd permanent residents - cars only –no boats)
Tocyn tymhorol parcio ar draeth Morfa Bychan. Di breswyl yng Ngwynedd. Ceir yn unig.	45.00	55.00	55.00	Season entry ticket to Morfa Bychan beach. Non residents – cars only.

Pennawd/Heading	Disgrifiad - Description	Chwyddiant-Inflation	2014/15	Cynnydd - Increase	2015/16
DF04	PARC PADARN	1.07%	-168,580	-1,800	-170,380
DF05	PARC GLYNLLIFON	2.80%	-35,770	-1,000	-36,770
DG50	TRAETHAU	1.50%	-205,980	-3,100	-209,080
DG51	HAFAN PWLLHELI	0.64%	-1,258,970	-8,060	-1,267,030
DG52	HARBWR PWLLHELI	1.09%	-78,780	-860	-79,640
DG53	HARBWR PORTHMADOG	1.09%	-79,450	-860	-80,310
DG54	HARBWR ABERMAW	1.09%	-44,260	-480	-44,740
DG55	HARBWR ABERDYFI	1.09%	-33,270	-360	-33,630
DG63	DOC FICTORIA	0.84%	-215,370	-1,800	-217,170



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Tîm Cyngor Morol
Maes-y-Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

E-bost: morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000

13 Chwefror, 2015

Annwyl Syr / Fadam

Mae nifer o ardaloedd yn y môr o amgylch Cymru'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig newydd. Yn ôl tystiolaeth wyddonol, ystyrir fod yr ardaloedd hyn yn rhai sy'n cynnal poblogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol o Lamhidydd yr Harbwr a nifer o rywogaethau adar y môr.

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru'n cynnal 'dyddiau galw heibio' anffurfiol lle gall sefydliadau ac unigolion â diddordeb ganfod rhagor am y cynigion a'u trafod gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Gweinidog Cymru dros Adnoddau Naturiol sy'n penderfynu a ddylid dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i gymryd hyd yma. Os bydd y Gweinidog yn penderfynu symud ymlaen â'r cynigion, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn nes ymlaen yn y flwyddyn, cyn cymryd unrhyw benderfyniad a ddylid dynodi'r ardaloedd ai peidio.

I ddechrau, rydym yn cynnal dwy sesiwn alw heibio, un yng ngogledd Cymru ac un yn ne Cymru, mae'r manylion isod. Rydym yn deall na fydd y dyddiadau na'r lleoliadau gyfleus i bawb, felly byddwn yn ystyried cynnal sesiynau mewn mannau eraill, megis y Canolbarth, yn dibynnu ar faint o ddiddordeb sy'n cael ei ddangos. Os yn briodol, efallai y byddwn hefyd yn gallu cyfarfod â phartïon â diddordeb ar sail un i un yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae manylion y ddwy sesiwn gyntaf fel a ganlyn:

- Dydd Llun 23 Chwefror 2015, canol dydd hyd 7pm yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol Cymru, Caerfyrddin, SA31 3EP, Ffôn: 01267 676638.
<http://venuewales.co.uk/cy/halliwell-centre-carmarthen/>
- Dydd Mercher 25 Chwefror 2015, canol dydd hyd 7pm yn Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor LL57 4HJ Ffôn 01248 675000
http://www.parcmenai.com/cy-GB/ty_menai-63.aspx

Bydd lluniaeth ar gael yn y ddwy sesiwn ac mae yna digon o le parcio a mynedfa i gadeiriau olwyn yn y ddau le.

Byddwn wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyh os ydych:


- eisiau dod i un o'r ddau ddiwrnod galw heibio cyntaf;
- yn gwybod am ddigwyddiadau eraill, addas, sy'n cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf (er enghraifft cyfarfodydd cymunedol, cyfarfodydd blynyddol ac yn y blaen) ble gallwn ni fod yno, amlinellu'r cynigion ac ateb cwestiynau;
- eisiau awgrymu cyfarfod ychwanegol mewn man arall.

Rhowch wybod i ni os hoffech chi gymryd rhan, naill ai drwy ffonio Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (gofynnwch am gynigion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Gwarchodaeth Arbennig morol) neu e-bostiwch ni ar morol.n2k@naturalresourceswales.gov.uk gyda'ch enw, enw sefydliad (os yn berthnasol) a'ch rhif ffôn cyswllt.

Mae croeso i bawb yn y ddau ddiwrnod galw heibio, ond byddai o gymorth pe byddech yn rhoi gwybod i ni dros y ffôn neu drwy e-bost (fel uchod) os ydych yn bwriadu dod i unrhyw un o'r ddau. Hefyd, bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru ar gael i drafod mewn sesiynau un i un am hyd at hanner awr ar y ddau ddiwrnod. Os hoffech neilltuo adeg benodol, byddai'n ddoeth archebu'ch sesiwn o flaen llaw pan fyddwch yn cadarnhau'ch presenoldeb. Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw at ddewis pawb, ond yn dibynnu ar y gofyn, efallai y bydd rhaid rhannu'r sesiynau hanner awr gyda chyfranogwyr eraill.

Edrychwn ymlaen yn fawr at glywed oddi wrthyh.

Yn gywir



Rhian Jardine
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy

HARBWR PORTHMADOG HARBOUR

Mae'r sianel yn newid cwrs yn rheolaidd. Cynghorir bod morwyr yn cysylltu gyda'r harbwr pe bydd y siart hwn yn fwy na mis oed. Mae yn anorfod eich bod yn cysylltu a'r Harbwr Feistr am fanylion diweddaraf.

Ffon: 01766 512927 / 07879 433147

e-bost: barrydaviestec@gwynedd.gov.uk

BORTH Y GEST

CEI BALAST

MORFA BYCHAN

CWT POWDR

Cynghorir morwyr i beidio â mordwyo dros y draethell oni bai oddi fewn 2 awr pob ochr pen llanw (dibynnol ar gyflwr y môr.) I gychod gyda drafft fwy na 1.5M cyngorir morwyr i beidio â mordwyo dros y draethell oddi fewn 1.5 awr bob ochr pen llanw.

1	Q FL G	52° 52. 974' N	004° 10. 740' W
2	Q FL R	52° 52. 912' N	004° 10. 332' W
3	FL G 3s	52° 52. 908' N	004° 10. 000' W
4	FL R (2)5s	52° 53. 026' N	004° 09. 750' W
5	FL G (2)5s	52° 53. 257' N	004° 09. 642' W
6	FL R (3)10s	52° 53. 427' N	004° 09. 576' W
7	FL G (3)10s	52° 53. 731' N	004° 09. 325' W
8	FL R (4)15s	52° 53. 877' N	004° 09. 120' W
9	FL G (4)15s	52° 54. 183' N	004° 08. 964' W
11	FL G (5) 20s	52° 54. 496' N	004° 08. 921' W
10	FL R 2.5s	52° 54. 631' N	004° 09. 026' W
13	FL G 2s	52° 54. 587' N	004° 08. 636' W
12	FL R 4s	52° 54. 645' N	004° 08. 371' W
14	FL R 6s	52° 54. 685' N	004° 08. 105' W
TEMP	FL G (2) 5s	52° 54. 877' N	004° 08. 019' W
TEMP	FL R (2) 6s	52° 54. 711' N	004° 08. 053' W
17	FL G 6s	52° 55. 004' N	004° 07. 871' W



FAIRWAY
LFLW 10s
52°53.008'N
04°11.097'W

03 / 12 / 14
Harbwr Porthmadog

